

## Hysbysiad Preifatrwydd – Cynllun Cymorth Rhianta ar gyfer Datrysiadau y Tu Allan i'r Llys

Mae'r hysbysiad hwn yn egluro pa wybodaeth mae'r Cyngor ei hangen er mwyn prosesu ceisiadau ar gyfer y **Cynllun Cymorth Rhianta ar gyfer Datrysiadau y Tu Allan i'r Llys**. Mae angen i'r Cyngor gasglu, storio a phrosesu gwybodaeth bersonol er mwyn darparu ei wasanaethau. Mae'r Cyngor yn rhoi mesurau ar waith i ddiogelu preifatrwydd unigolion ar hyd y broses.

### Pwy sy'n gyfrifol am eich gwybodaseth?

Caiff yr holl wybodaeth ei dal a'i phrosesu gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent yn unol â deddfwriaeth Diogelu Data. I gael gwybodaeth ar rôl y Rheolydd Data, y Swyddog Diogelu Data a manylion cyswllt y Cyngor, gweler y dudalen 'Diogelu Data' ar wefan y Cyngor:

<https://blaenau-gwent.gov.uk/en/Council/data-protection-foi/data-protection-act/>

### Pa wybodaeth ydyn ni ei hangen?

Bydd Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent yn casglu gwybodaeth bersonol amdanoch chi, ac os oes angen, eich teulu a phartion eraill. Bydd yr wybodaeth hon yn cynnwys:

- Manylion amdanoch, tebyg i'ch **enw, cyfeiriad, rhif ffôn, cyfeiriad e-bost, dyddiad geni;**
- Gwybodaeth arall berthnasol sydd ei hangen i brosesu eich cais, tebyg i ddisgrifiad o'r gwasanaeth sydd ei angen.

Byddwn yn defnyddio'r wybodaeth hon i brosesu eich cais a/neu weinyddu'r camau gweithredu sydd eu hangen. Gallwn wirio peth o'r wybodaeth gyda ffynonellau eraill i sicrhau fod yr wybodaeth a roddwyd gennych yn gywir.

### Pam ein bod angen eich gwybodaeth?

Pan ddaw [Deddf Plant \(Diddymu Amddiffyniad Cost Resymol\) \(Cymru\) 2020](#) i rym ar 21 Mawrth 2022 bydd yn diddymu amddiffyniad cosb resymol. O hynny ymlaen bydd pob cosb gorfforol ar blant yn anghyfreithlon yng Nghymru.

Os yw'r heddlu (ar ôl ystyried y profion tystiolaeth a budd y cyhoedd) yn penderfynu cymryd camau pellach yn erbyn rhiant sydd wedi cosbi eu plentyn yn gorfforol, medrent gynnig datrysiad y tu allan i'r llys i osgoi potensial erlyniad drwy'r llysoedd am droseddau lefel isel. Byddai cymryd rhan mewn cymorth rhianta a fwriedir i ddatblygu arferion rhianta cadarnhaol a di-drais yn amod o'r datrysiad y tu allan i'r llys.

Mae Grant Cymorth Rhianta ar gyfer Datrysiadau Tu Allan i'r Llys yn darparu cyllid i alluogi awdurdodau lleol i ddarparu'r cymorth rhianta pwrpasol hwn.

Gall yr awdurdod lleol casglu a defnyddio gwybodaeth bersonol i:

- Gynnal asesiad o anghenion rhianta yr unigolyn i deilwra'r sesiynau cymorth rhianta i'w hanghenion penodol.
- Rhoi mynediad i'r cymorth rhianta i'r unigolyn.
- Rhannu gwybodaeth gyda'r heddlu fel y gwyddant os yw'r unigolyn wedi cydymffurfio gydag amodau y datrysiad y tu allan i'r llys.
- Cyflawni gofynion diogelu.

Gall yr wybodaeth gael ei rhannu gyda Llywodraeth Cymru ar gyfer dibenion monitro a gwerthuso, er mwyn asesu os yw'r cymorth rhianta a gyflwynir yn effeithlon ac yn diwallu anghenion ystod o unigolion (yn yr achos hwn bydd data unigolion yn gronnus ac yn ddienw).

### **Gyda phwy y byddwn yn rhannu eich gwybodaeth?**

I alluogi'r Cyngor i brosesu eich cais a chydymffurfio gyda'n gofynion cyfreithiol, byddwn yn rhannu eich gwybodaeth gyda sefydliadau partner yn cynnwys:

- Yr Adran Gwaith a Phensiynau ac adrannau eraill y Llywodraeth;
- Asiantaeth yr Amgylchedd;
- Heddlu Gwent;
- Darparwyr gofal cymdeithasol;
- Llywodraeth Cymru;
- Archwilwyr;
- Rheoleiddwyr allanol.

Bydd y Cyngor hefyd yn defnyddio'r wybodaeth i gyflawni unrhyw un o'i ddyletswyddau gorfodaeth statudol. Bydd yn gwneud unrhyw ddatgeliadau sy'n ofynnol yn ôl y gyfraith a gall hefyd rannu'r wybodaeth hon gyda chyrrff eraill sy'n gyfrifol am ganfod/atal twyll neu archwilio/gweinyddu cyllid cyhoeddus.

### **Beth yw'r sail gyfreithiol ar gyfer prosesu'r wybodaeth hon?**

Mae Rheoliadau Cyffredinol ar Ddiogelu Data (GDPR) y Deyrnas Unedig yn ei gwneud yn ofynnol i gyflawni amodau penodol i sicrhau fod prosesu data bersonol yn gyfreithlon.

Y sail gyfreithlon ar gyfer y cynllun hwn yw:

- Erthygl 6 (1)(e) Tasg gyhoeddus: Mae angen y prosesu er mwyn i'r Cyngor gyflawni tasg er budd y cyhoedd neu ar gyfer swyddogaethau swyddogol, ac mae gan y dasg neu'r swyddogaeth sail clir yn y gyfraith.
- Erthygl 6(1) (c) mae angen prosesu er mwyn cydymffurfio gyda gofyniad cyfreithiol y mae'r rheolydd yn destun iddo (e.e. Deddf Plant (Diddymu Amddiffyniad Cosb Resymol (Cymru) 2020)

Mae rhai mathau o ddata personol yn fwy sensitif nac eraill, ac angen mwy o ddiogelu. Caiff hyn ei ddsbarthu fel 'data categori' arbennig a gallai gynnwys gwybodaeth am darddiad hiliol neu ethnig a chredoau gwleidyddol ac yn y blaen. Mae erthygl 9 yn gwahardd prosesu data categori arbennig heblaw lle caiff un o'r 10 eithriad ei ddynodi fel y nodir yn y Ddeddf Diogelu Data 2018.

Bydd Llywodraeth Cymru yn gofyn i'r awdurdod lleol roi gwybodaeth gronnu ddiennw ar nodweddion gwarchoddedig unigolion ar gyfer dibenion monitro grant (e.e. nifer unigolion o gefndir Du, Asiaidd a Lleafrif Ethnig neu gyda anabledd a atgyfeiriwyd a'r nifer sydd wedi cwblhau'r cymorth rhianta pwrpasol). Y diben yw asesu os oes unrhyw wahaniaethau mewn atgyfeiriad at, defnydd o ac ymgysylltu yn y cymorth rhianta yn ôl statws rhyw, ethnigrwydd neu anabledd.

### **Pa mor hir ydyn ni'n cadw eich gwybodaeth?**

Dim ond cyhyd ag sydd angen y bydd y Cyngor yn cadw eich gwybodaeth. Gellir cael manylion llawn am ba mor hir mae'r cyngor yn cadw eich gwybodaeth drwy gysylltu â'r Adran berthnasol sy'n gyfrifol am y gwasanaethau rydych eu hangen.

Canolfan gyswllt y Cyngor: [info@blaenau-gwent.gov.uk](mailto:info@blaenau-gwent.gov.uk) / 01495 311556.

### **Rhoi gwybodaeth gywir**

Mae'n bwysig ein bod yn dal gwybodaeth gywir a chyfredol amdanoch er mwyn asesu eich anghenion a darparu'r gwasanaethau priodol. Os oes unrhyw rai o'ch manylion wedi newid, neu yn newid yn y dyfodol, gofynnir i chi sicrhau eich bod yn dweud wrthym cyn gynted ag sydd modd fel y gallwn ddiweddarau eich cofnodion.

### **Gwneud Penderfyniadau wedi Awtomeiddio**

Mae rhai penderfyniadau yn seiliedig ar gyfrifiadur gan fod y Cyngor yn defnyddio systemau wedi awtomeiddio i gefnogi ei wasanaethau. Os caiff eich data personol ei brosesu drwy ddulliau wedi awtomeiddio, cewch eich hysbysu am y canlyniadau a chrynodeb o'r meini prawf a ddefnyddir yn y broses. Mae'r canlyniadau yn amodol ar benderfyniad terfynol gan y rheolwr gwasanaeth perthnasol.